Swyddfa Annibynnol
Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office
for Police Conduct



# Cynllun busnes

2020/21

# Cynnwys


**Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol** **4**

**Cyflwyniad** **6**

- **Blaenoriaeth: gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu** **8**
  - – Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21 10
  - – Sbotolau: ail-ddylunio prosesau 14
- **Blaenoriaeth: gwella plismona trwy adnabod a rhannu dysg o'n gwaith** **16**
  - – Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21 18
  - – Sbotolau: argymhellion dysgu 21
- **Blaenoriaeth: gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu** **22**
  - – Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21 24
  - – Sbotolau: gwella'r broses o ymdrin â chwynion 28
- **Blaenoriaeth: bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol** **29**
  - – Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21 31
  - – Sbotolau: gwella ein gwybodaeth 34

**Ein cyllid a risgiau** **35**





POLICE

# Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Rwyf yn falch o gyflwyno ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei gyflawni a'r effaith yr ydym am ei chael wrth gyflawni ein cenhadaeth: sicrhau a gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi'n cael eu dysgu. Mae hyn yn cael ei egluro yn ein **Cynllun Strategol**.

Rwy'n falch o'n cyflawniadau sylweddol yn ystod dwy flynedd gyntaf ein strategaeth. Rydym bellach yn cwblhau tri chwarter ein hymchwiliadau o fewn 12 mis a dros y flwyddyn ddiwethaf caewyd 718 o achosion - dros 200 yn fwy nag a agorwyd gennym. Rydym hefyd wedi gorffen bron pob un o'r 538 o hen achosion a etifeddwyd gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC), gyda dim ond 18 yn weddill. Heb yr achosion hyn, o'r rhai yr ydym wedi'u dechrau a'u cwblhau ers dod yn yr IOPC, cwblhawyd dros 90% o fewn 12 mis. Fodd bynnag, nid wyf yn gorffwys ar fy rhwyfau. Mae gennym fwy i'w wneud i gyflawni ein hamcanion ac mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut byddwn yn mynd ati i wneud hynny.


Mae ein harolwg staff yn ddangosydd o ba mor dda yr ydym yn gwneud wrth wneud yr IOPC yn lle gwych i weithio, ac o farn ein staff. Gwnaeth canlyniadau 2019 ragori ar y disgwyliadau a dangos ein bod ar y trywydd iawn. Ers yr arolwg diwethaf, mae boddhad staff wedi cynyddu ar draws bron pob mesur ac rydym bellach o fewn ystod perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil mewn rhai meysydd. Gwelodd rhai timau unigol hefyd newid mawr mewn gwella. Mae'n bwysig nawr ein bod yn mynd ymlaen i gymryd camau i gynnal a gwella'r canlyniadau eleni. Rydym yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud hyn yn y cynllun hwn.

Wrth i ni gwblhau'r cynllun, dechreuodd y pandemig COVID-19 newid bywyd bob dydd i bawb ohonom. Fel pob sefydliad, mae'r flwyddyn sydd i ddod bellach yn ansicr ac rydym eisoes yn gorfod dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, ailystyried ein blaenoriaethau, ac addasu i'r byd sy'n newid yn barhaus.

Mae hyn yn cyflwyno her ddigynsail i wasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi baich ychwanegol sylweddol ar wasanaethau allweddol, gan gynnwys plismona. Mae'n bwysicach nag erioed bod gan y cyhoedd hyder yn yr heddlu.

Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol, y byddwn yn adolygu'n barhaus yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 a'n capasiti. Byddwn yn delio â'r heriau hyn gorau y gallwn yng ngolwg ein rôl hanfodol yn y system cyfiawnder troseddol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n cyfarwyddwyr anweithredol am eu her a'u cyngor adeiladol, a'n staff am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled. Dim ond gyda'u cefnogaeth nhw y byddwn yn gallu cyflawni ein hamcanion.



**Michael Lockwood**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Ein cenhadaeth yw sicrhau a gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu.**

# Cyflwyniad

Mae eleni yn nodi'r pwynt hanner ffordd o gyflawni ein **Cynllun Strategol 2018-2022**.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei wneud yn 2020/21. Ochr yn ochr â chyflawni ein swyddogaethau statudol, a amlinellir yn adran 10 (c) o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, mae gennym raglen waith uchelgeisiol, a ategir gan ein pedair blaenoriaeth:

- gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu
- gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith
- gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu
- bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn, mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r gwaith rydym yn bwriadu ei gyflawni eleni, sut y byddwn yn mesur ein cynnydd, a sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo ar ddiwedd ein strategaeth.

Byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd a'n perfformiad yn erbyn y mesurau yn y cynllun Busnes hwn i'n Bwrdd Unedol, sydd, ynghyd â'n Pwyllgorau Archwilio a Risg ac Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol, yn darparu her a chyfeiriad.

Byddwn yn agored ac yn dryloyw ynghylch ein perfformiad, yn cyhoeddi adroddiadau misol ar ein gwefan ac yn rhoi sicrwydd parhaus i'r Swyddfa Gartref, yr Ysgrifennydd Cartref a'r Senedd ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud ac yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.


IOPC
IOPC
Apel am dystion
Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn cynnal ymchwiliad ar ôl i ddyn gael ei anafu yn dilyn cyswllt a'r heddlu yn Ammanford.
Digwyddodd y digwyddiad tua 4yb ar ddydd Sul, 31 Mawrth.
Mae ein hymchwiliad yn dilyn atgyfeiriad gan yr heddlu ac mae ein hymchwiliad yn ei gamau cynnar.
Oeddech chi yn yr ardal ar y pryd? A wnaethoch chi weld neu glywed unrhyw beth a allai fod yn ddefnyddiol i'n hymchwilwyr?
nnir i unrhyw dystion ffonio'r Swyddfa
nbynnol Ymddygiad yr Heddlu.

# Blaenoriaeth

## Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

### Trosolwg

Dylai system gwynion effeithiol gyflawni canlyniadau diduedd, teg a seiliedig ar dystiolaeth yn gyson mewn modd amserol. Rydym yn gweithio gyda llawer o wahanol rhanddeiliaid i ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o’r system gwynion. Mae hyn yn cynnwys y gwaith rydyn ni'n ei wneud ein hunain a'r achosion y mae’r heddlu yn delio â nhw.[1]

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth wella prydlondeb ein hymchwiliadau ein hunain. Mae dros dri chwarter o’n hymchwiliadau annibynnol nawr yn cael eu cwblhau o fewn 12 mis. O'r rhai a ddechreuwyd ac a gwblhawyd ers inni ddod yn yr IOPC, ar 31 Mawrth 2020, mae 91% yn cael eu cau o fewn 12 mis. Rydym hefyd nawr yn cau mwy o achosion nag yr ydym yn eu hagor, gyda'n llwyth achosion yn gostwng dros draean yn ystod y 12 mis diwethaf.

Disgwylir i ddiwygiadau deddfwriaethol diweddar sylweddol i system gwynion yr heddlu wella pethau ymhellach. Dylai'r diwygiadau hyn sicrhau bod y system yn canolbwyntio mwy ar resymoldeb a chymesuroldeb ym mhob achos, gan wneud y system yn symlach, yn decach ac yn gyflymach. Rydym eisoes yn ymgorffori'r newidiadau hyn yn ein gwaith ein hunain, ac eleni byddwn yn gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod achosion y mae heddluoedd eu hunain yn delio â nhw yn elwa o'r diwygiadau hyn.

Byddwn hefyd yn parhau i wella ansawdd ein gwaith. Byddwn yn parhau i gyflawni ein gwaith heb ofn na ffafr ac o fewn paramedrau'r cynlluniau statudol sy'n llywodraethu ein gwaith. Rhaid i ni ddangos y craffwyd yn drylwyr ar y dystiolaeth, a bod hyn wedi arwain at gasgliadau rhesymegol. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn dryloyw ynghylch y dystiolaeth sydd wedi llywio ein penderfyniadau, ac yn darparu rhesymeg glir ar eu cyfer.

Eleni bydd ein gwaith yn cynnwys ail-ddylunio ein prosesau gweithredol. Bydd hyn yn eu gwneud yn fwy effeithlon a chymesur, ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Byddwn yn gwneud hyn trwy archwilio pob agwedd ar ein prosesau - o dderbyn atgyfeiriad gan yr heddlu neu alwad gan aelod o'r cyhoedd, i wneud ein hargymhellion a chwblhau ein hadroddiad.

1 Heddluoedd sy’n ymdrin â mwyafrif y cwynion yn erbyn swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Rhaid i heddluoedd atgyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom – p’un a yw rhywun wedi gwneud cwyn ai peidio.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:

- Yr amser a gymerir i ymateb i gwynion, cwblhau ymchwiliadau ac apeliadau yn cael ei leihau ar draws system gwynion yr heddlu.
- Yr amser a gymerir i gwblhau'r holl brosesau cysylltiedig (er enghraifft prosesau disgyblu) yn byrhau, yn arbennig yn dilyn marwolaethau ac anafiadau difrifol.
- Cwynion yn cael eu datrys y tro cyntaf gan arwain at lai o apeliadau.
- Cwynion a digwyddiadau difrifol yn cael eu trin yn gyson ar draws yr holl luoedd heddlu.
- Y rhai sy'n ymwneud â chwynion, ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau (defnyddwyr gwasanaeth) yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u hachos.

## Yr hyn fyddwn ni’n ei wneud yn 2020/21

### Gwaith parhaus i gyflawni ein strategaeth

- Adolygu tua 4,500 o achosion a gyfeirir atom bob blwyddyn gan heddluoedd a phenderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt.
- Ymchwilio'n annibynnol i'r achosion camymddwyn a llygredd mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Mae’r achosion ‘gwaith craidd’ hyn yn cynnwys achosion posib o dorri Erthyglau 2[2] a 3[3] o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn effeithio’n sylweddol ar hyder y cyhoedd.
- Parhau i ddewis achosion i'w hymchwilio ar ystod o themâu i ganolbwyntio ein gwaith ar y materion sy’n peri’r pryder mwyaf i'r cyhoedd a'r heddlu. Byddwn yn anelu at ychwanegu gwahaniaethu ar sail hil ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn nalfa'r heddlu at ein themâu sydd eisoes wedi'u sefydlu, sef iechyd meddwl, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, cam-drin domestig a chamddefnyddio safle at bwrpas rhywiol.
- Parhau â'n hymchwiliad i ganlyniad trychineb Hillsborough ac ymchwiliadau mawr eraill o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ymchwiliadau fel Operation Linden, ein hymchwiliad i honiadau bod yr heddlu wedi methu ag ymchwilio i gwynion o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham.
- Ystyried dros 3,000 o apeliadau a cheisiadau am adolygiad gan aelodau o'r cyhoedd sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r heddlu wedi delio â'u cwyn. Byddwn yn ystyried a oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur.
- Adolygu'r modd yr ymdriniwyd â dros 1,200 o achosion yn ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu i sicrhau eu bod wedi cael eu trin yn briodol gan yr heddlu a bod y camau cywir wedi'u cymryd.
- Dod â'r nifer fach o achosion agored a etifeddwyd gennym gan yr IPCC i ben.
- Datblygu ymhellach arbenigedd ein Grwpiau Ymarferwyr Gweithredol (OPGs), sy'n cefnogi'r holl staff gweithredol trwy rannu arfer gorau wrth gyflawni ein gwaith. Rydym wedi sefydlu OPGs i ganolbwyntio ar feysydd fel datgelu[4], cyfweld, ysgrifennu adroddiadau ac ymchwiliadau digidol.
- Ymateb i dros 28,000 o ymholiadau a dderbynnir bob blwyddyn gan ein Canolfan Cyswllt Cwsmer, sy’n darparu cyngor ac arweiniad ar system gwynion yr heddlu.
- Gwella ein Llawlyfr Gweithrediadau yn barhaus i ddarparu canllawiau mwy hygyrch, perthnasol a diweddar i gefnogi ein staff i gyflawni eu gwaith.
- Parhau i ail-ddylunio ein prosesau gweithredol i wella ansawdd ac amseroldeb ein gwaith ymhellach.
- Gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Ffederasiwn yr Heddlu, y Prif Grwner ac eraill i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio ar draws system gwynion ehangach yr heddlu. Mae'n bwysig ein bod yn gwella amseroldeb pob rhan o'r system, gan gynnwys y prosesau sy'n dilyn ymchwiliadau IOPC, ond sy’n gallu ychwanegu cryn amser at ddod ag achos i ben.

2 Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi y bydd hawl pawb i fywyd yn cael ei amddiffyn gan y gyfraith.
3 Mae Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwahardd artaith, a “thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol”. Nid oes unrhyw eithriadau na chyfyngiadau ar yr hawl hon.
4 Mae ‘datgeliad’ yn golygu darparu’r amddiffynwyr â chopïau neu fynediad at yr holl ddeunydd sy’n gallu tanseilio’r achos erlyn a/neu gynorthwyo’r amddiffynwyr.

- Cryfhau ein sicrwydd ansawdd trwy roi fframwaith sicrwydd ansawdd newydd ar waith. Bydd hyn yn cynnwys:
  - cynnal Paneli Achos Tyngedfennol amlddisgyblaethol i reoli ein hymchwiliadau mwyaf sensitif a chymhleth
  - cynnal adolygiadau manwl untro o achosion, gan ganolbwyntio ar feysydd pryder a godwyd gan staff neu randdeiliaid
  - cyflwyno fforymau gwneud penderfyniadau mewnol a phroses adolygu cymheiriaid i hybu cysondeb a nodi dysgu a meysydd i'w gwella
- Parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ar reoli gwybodaeth o dan *Ddeddf Diogelu Data 2018*, ac ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.



## Gwaith newydd ar gyfer 2020/21

- Gweithio gyda heddluoedd, comisiynwyr heddlu a throseddu (PCCs) ac eraill i ymgorffori newidiadau i system gwynion yr heddlu a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2020. Byddwn yn gwneud hyn trwy:
  - cynnal ymchwiliadau dan gyfarwyddyd i achosion cymhleth a'r rhai sydd angen adnoddau arbenigol[5]
  - defnyddio ein pwerau newydd i gyflwyno achosion mewn gwrandawiadau disgyblu, lle mae hyn er budd y cyhoedd[6]
  - defnyddio ein pŵer menter newydd[7] i benderfynu sut y dylid ymchwilio i achos heb fod angen i'r heddlu ei gofnodi neu ei gyfeirio atom yn gyntaf
  - cefnogi heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i fabwysiadu'r diwygiadau hyn i sefydlu diwylliant o ddysgu a gwella
  - gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ymestyn y ddeddfwriaeth newydd i gyrff eraill o dan ein hawdurdodaeth
- Cyflwyno ymrwymiad newydd, pan na fydd ymchwiliad yn cael ei gwblhau o fewn tri mis, y byddwn yn anelu at gadarnhau statws pawb sy'n gysylltiedig - pa un a ydynt i'w hystyried yn dystion neu i gyflwyno'r hysbysiadau camymddwyn priodol.
- Sefydlu fforwm ansawdd newydd, a fydd â Chadeirydd annibynnol yn y pen draw, i ddarparu goruchwyliaeth strategol, her a chyfeiriad.
- Gosod safonau ansawdd gofynnol ar gyfer ein holl ymchwiliadau i helpu i nodi pan fydd ymchwiliad mewn perygl o ddisgyn yn is na'r safonau hynny fel y gellir cymryd camau cyflym.
- Cyflwyno strategaeth rheoli gwybodaeth newydd, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd a defnyddioldeb ein data a gwella datgeliad i gefnogi achos cyfreithiol, gan gynnwys achosion troseddol a gwrandawiadau disgyblu.

5 Creodd paragraff 15(5)(b) o Atodlen 5 *Deddf Plismona a Throsedd 2017* ddull ymchwilio newydd ar gyfer yr IOPC - ymchwiliadau dan gyfarwyddyd. Bydd ymchwiliadau dan gyfarwyddyd ar gael i ni mewn achosion sy'n haeddu ymchwiliad annibynnol ond, am lawer o resymau, efallai na fydd hynny'n bosibl. Bydd ymchwiliadau dan gyfarwyddyd yn digwydd o dan ein cyfarwyddyd a'n rheolaeth, ond byddant yn defnyddio adnoddau'r heddlu i gynnal a chwblhau'r ymchwiliad.

6 Creodd Rheoliad 24(1) o *Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020* bwerau newydd i'r IOPC gyflwyno achosion a gyfeiriwyd at wrandawiad camymddwyn neu wrandawiad camymddwyn cyflymach lle gwrthododd yr awdurdod priodol (AP), mewn perthynas ag ymchwiliad, dderbyn argymhelliad gan yr IOPC, roedd barn yr AP yn wahanol i benderfyniad gan yr IOPC, mae'r AP a'r IOPC yn cytuno y dylai'r IOPC gyflwyno'r achos, neu mae'r IOPC o'r farn bod budd cyhoeddus cryf i'r IOPC gyflwyno'r achos.

7 Mae ein pŵer menter newydd wedi'i amlinellu ym Mharagraffau 4A, 13A a 14C o Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.


CW
2164
POLIC

# Sbotolau:
## ail-ddylunio prosesau

Mae gwaith wedi dechrau ar ail-ddylunio ein prosesau gweithredol i wella prydlondeb ac ansawdd ein gwaith. Trwy wneud hyn bydd ein defnyddwyr gwasanaeth yn elwa o ddull ymchwilio mwy deinamig - un sy'n fwy cymesur â'r amgylchiadau ac sy'n gwneud gwell defnydd o gyfleoedd tystiolaethol, megis argaeledd cynyddol fideo a wisgir ar y corff.

Bydd ail-ddylunio ein prosesau yn cael ei lywio gan arfer gorau gan sefydliadau eraill, yn ogystal â'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaeth. Nod yr ymgysylltiad hwn yw helpu i sicrhau y gall y rhai y mae ein gwaith yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ddylanwadu a bod â hyder yn y newidiadau rydym yn eu gwneud.

Byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar ail-ddylunio prosesau ar gyfer tair agwedd ar ein gwaith: ymchwiliadau annibynnol, ymchwiliadau o arwyddocâd cenedlaethol ac adolygu ymchwiliadau cwynion yr heddlu.

Yn dilyn ychydig o gynlluniau peilot cynnar, rydym eisoes yn gwerthuso cyfleoedd i wella ein gwaith, gan gynnwys:

- dyrannu mwy o staff i gamau cynnar ymchwiliadau fel y gellir cyflawni mwy o dasgau ar yr un pryd
- sefydlu ymgysylltiad cynnar ac agored ag adrannau safonau proffesiynol yr heddlu, y CPS a chynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu
- datblygu prosesau fel y gellir gwneud penderfyniadau yn gyflym yn ystod ymchwiliad yn hytrach nag ar ei ddiwedd
- cyflymu'r broses ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr sy'n darparu tystiolaeth a barn yn ein hachosion

Mae'r IOPC yn rhan o system ehangach, a gall prosesau sy'n dilyn ein hymchwiliadau ychwanegu at yr amser a gymerir i ddod ag achosion i ben. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y system gyfan yn gweithio'n effeithiol. Ar ôl i ni wella ein prosesau ein hunain, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella amseroldeb achosion troseddol a chamymddwyn, cwestau a'r amser a gymerir i drefnu gwrandawiadau.

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- gwblhau 85% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr[8])
- benderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o'r achosion a atgyfeirir atom ni cyn pen 3 diwrnod
- adolygu 75% o achosion marwolaeth neu anaf difrifol yr ymchwilir iddynt yn lleol cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad y mae'r IOPC yn cael yr holl bapurau cefndir
- penderfynu ar 65% o'r holl apeliadau ymchwiliad neu ddatrysiad lleol o fewn 35 diwrnod gwaith
- benderfynu ar 80% o apeliadau yn erbyn penderfyniad llu heddlu i beidio â chofnodi cwyn cyn pen 25 diwrnod gwaith
- benderfynu ar 65% o'r holl adolygiadau cyn pen 35 diwrnod gwaith

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o apeliadau neu adolygiadau a gadarnhawyd yr ydym yn eu cadarnhau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â sut mae lluoedd heddlu wedi ymdrin â'u cwyn[9]
- y gyfran o randdeiliaid plismona sy'n credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd y mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion.

8 Mae ymchwiliadau mawr yn ymchwiliadau cymhleth ar raddfa fawr a fyddai fel rheol yn cymryd capasiti sylweddol o'n tîm gweithrediadau rhanbarthol. Rheolir y rhain gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawr.
9 O dan y system newydd o adolygiadau, byddwn yn asesu a oedd y broses o drin neu ganlyniad terfynol cwyn yn rhesymol ac yn gymesur.

# Blaenoriaeth

## Gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith

### Trosolwg

Gall newidiadau a wneir o ganlyniad i ddysgu o'n gwaith wella plismona i bawb ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Er na fyddwn yn cilio rhag dwyn unigolion i gyfrif am ymddygiad gwael, mae dysgu wedi dod yn rhan gynyddol bwysig o'n gwaith.

Y llynedd gwnaethom gyhoeddi ein **Hadroddiad Effaith** blynyddol cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys sawl enghraifft o sut ydym yn defnyddio’r gwersi a ddysgwyd o’n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona, sicrhau atebolrwydd a chefnogi arfer orau. Eleni byddwn yn parhau i gryfhau ein heffaith a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blismona - yn weithredol, yn sefydliadol ac yn ddiwylliannol.

Dylai'r dysgu o'n gwaith gefnogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus, sy'n atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Dywedodd 93% o'r bobl a holwyd mai dysgu o gwynion yw'r canlyniad pwysicaf.[10] Rhaid i ni ddefnyddio'r dysgu a nodwyd trwy ein gwaith ar gyfer atal, nid gwella.

Nod ein **Strategaeth Ddysgu** newydd yw cryfhau ein dull o ddysgu ac, yn ei dro, helpu i feithrin diwylliant o ddysgu a gwella ar draws plismona. I wneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar y meysydd plismona sy’n peri’r pryder mwyaf i'r cyhoedd a'r heddlu, gyda gwahaniaethu ar sail hil, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn nalfa'r heddlu, iechyd meddwl, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, cam-drin domestig a chamddefnyddio statws ar gyfer pwrpas rhywiol fel blaenoriaethau allweddol yn ychwanegol at ein gwaith craidd.

Trwy ein prosesau gweithredol wedi'u hailddylunio, byddwn yn sicrhau y gallwn adnabod cyfleoedd dysgu trwy gydol ein hymchwiliadau, nid dim ond ar y diwedd. Byddwn hefyd yn gwella ein prosesau ar gyfer gwneud argymhellion dysgu, gan weithio'n agos gyda'r heddlu ac eraill fel bod yr argymhellion hyn yn arwain at welliannau gwirioneddol mewn arferion plismona.

10 Mae Arolwg Tracio Canfyddiad y Cyhoedd yr IOPC yn arolwg rheolaidd a gynhelir gan gwmni ymchwil allanol. Mae'n darparu mesur parhaus ac annibynnol o ganfyddiadau a hyder yn system gwynion yr heddlu.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:

- Fyddwn yn gweithio yn glos gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn naturiol tu mewn i blismona a thu allan iddo i ddynodi themâu a dynodi'r gwersi i'w dysgu trwy'n gwaith.
- Fydd ein hargymhellion dysgu yn cael eu derbyn a gallwn ddangos eu heffaith ar blismona gweithredol.
- Fydd rhanddeiliaid yn hyderus bod ein gwaith yn hyrwyddo dysgu a gwella.
- Fyddwn yn gallu dangos bod ein gwaith wedi cefnogi ein partneriaid (er enghraifft, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), y Coleg Plismona, Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol (NPCC)) trwy ddylanwadu ar eu gwaith i wella plismona gweithredol.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21

### Gwaith parhaus i gyflawni ein strategaeth

- Cyhoeddi ac ehangu cyrhaeddiad ein cylchgronau Dysgu'r Gwersi i rannu dysgu allweddol o ymchwiliadau'r IOPC a'r heddlu.
- Cynhyrchu ein Hadroddiad Effaith blynyddol i ddangos y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud o ran gwella arferion plismona a diogelwch y cyhoedd trwy nodi a rhannu dysgu o'n gwaith. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys llawer o enghreifftiau o sut rydym wedi defnyddio dysgu o'n gwaith i wella arfer plismona yn barhaus.
- Rhannu dysgu a thystiolaeth gyda HMICFRS i gefnogi ei raglen arolygu.
- Cyhoeddi ystadegau blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu i dynnu sylw at ble mae gwersi eisoes wedi'u dysgu a lle gellir gwneud gwelliannau i amddiffyn y cyhoedd.
- Gweithio gyda HMICFRS a'r Coleg Plismona i ymateb i uwch gwynion[11] am faterion systemig mewn plismona sydd, neu sy'n ymddangos fel pe baent, yn niweidio budd y cyhoedd yn sylweddol.
- Parhau i adeiladu arbenigedd technegol ein Rhwydweithiau Pwnc (SMNs) i wella ansawdd a chysondeb ein gwaith. Mae ein SMNs yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan y meddwl, yr arfer a'r arweiniad diweddaraf. Maent yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd fwyaf o bryder i'r cyhoedd a'r heddlu.
- Defnyddio dysgu a nodwyd trwy ein gwaith gweithredol i eirioli dros welliannau i blismona gweithredol, gan gynnwys trwy ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a chyhoeddi safbwyntiau polisi.

11 Mae'r system uwch-gwynion (Adran 29A, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*) yn darparu llwybr i gyrff dynodedig godi pryder ynghylch mater systemig mewn plismona sydd, neu'n ymddangos fel petai, yn niweidio buddiannau'r cyhoedd ac sy'n amlwg mewn un neu fwy o heddluoedd. Cyflwynir uwch-gwynion i HMICFRS, sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli'r system ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Plismona a'r IOPC (ac eraill yn ôl yr angen) i gytuno ar ymateb i'r uwch-gŵyn.


LEARNING
THE LESSONS
Mental health
ASK YOURSELF:
Could it happen here?
Issue 34
February 2019
policing policy and practice

## Gwaith newydd ar gyfer 2020/21

- Newid ein dull o ymchwilio i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella yn cael eu hystyried trwy gydol ymchwiliad, nid dim ond ar ddiwedd y broses.
- Gwella sut rydym yn gwneud argymhellion dysgu sy'n cael eu llywio gan arfer gorau a blaenoriaethu dysgu sy'n sbarduno gwelliant. Byddwn yn gwneud hyn trwy:
  - gynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu argymhellion dysgu
  - gwella ein gallu i olrhain ac adrodd ar effaith argymhellion dysgu
  - gwella sut rydym yn hyfforddi ein staff i wneud argymhellion dysgu effeithiol
  - cyflwyno hyrwyddwyr dysgu pwrpasol ar draws y sefydliad
- Cyfrannu at grŵp Arweinwyr Dysgu'r NPCC i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio dysgu o'n gwaith i wneud gwelliannau ledled y system.
- Datblygu ymhellach ein cysylltiadau â'r rhai sy'n ymwneud â phlismona a chyfiawnder troseddol, neu sydd â diddordeb ynddynt, i'n helpu i ddefnyddio ein dysgu i wella arfer plismona.
- Gwella sut rydym yn rhannu dysgu ar faterion plismona sy'n dod i'r amlwg ac ymateb yn gyflymach i bryderon rhanddeiliaid i ennyn hyder y cyhoedd.

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- gyhoeddi Adroddiad Effaith blynyddol yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr ydym wedi ei wneud wrth wella plismona a system gwynion yr heddlu
- cynyddu i 95% y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn Dysgu'r Gwersi yn offeryn defnyddiol i yrru newid ym mholisi'r heddlu[12]

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o argymhellion dysgu a dderbynnir gan luoedd heddlu
- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau mewn lluoedd heddlu
- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod lluoedd heddlu yn dysgu oddi wrth gwynion

12 Yn seiliedig ar arolwg o ddarllenwyr a gynhaliwyd ar ôl cyhoeddi pob rhifyn newydd o'r cylchgrawn.

# Sbotolau:

## argymhellion dysgu

Mae gan yr IOPC bwerau statudol i wneud argymhellion dysgu i heddluoedd ac, mewn rhai amgylchiadau, i gyrff eraill.[13] Rydym yn gwneud argymhellion dysgu yn ystod ein hymchwiliadau (argymhellion s.10) neu ar ddiwedd ein hymchwiliadau (argymhellion paragraff 28A). Yn ogystal, rydym hefyd yn gwneud argymhellion ar ôl gwneud penderfyniadau mewn rhai mathau o apeliadau ac adolygiadau.

Mae'n bwysig bod ein hargymhellion dysgu yn wybodus, yn cael eu gwneud ar yr amser priodol, yn cyrraedd y bobl gywir, ac yn cefnogi gwasanaeth yr heddlu i wneud gwelliannau. Mae adborth gan heddluoedd a rhanddeiliaid eraill wedi ein helpu i nodi cyfleoedd i gryfhau ymhellach ein proses argymhellion dysgu cyfredol, y byddwn yn ei gwneud eleni.

Rydym yn deall yr effaith gadarnhaol y gall y dysgu a nodwyd trwy ein gwaith ei gael ar wella arferion plismona ac wrth atal materion rhag digwydd eto. Felly, dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gwella ein system bresennol ymhellach. Yn gyntaf, byddwn yn edrych ar sut rydym yn cofnodi ac yn rhannu dysgu. Yna byddwn yn sicrhau bod ein prosesau ar gyfer gwneud argymhellion dysgu yn syml ac yn hawdd eu defnyddio.

13 Mae pwerau statudol yr IOPC i wneud argymhellion dysgu wedi'u nodi yn Adran 10(1)(e) a Pharagraff 28A o Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

# Blaenoriaeth

## Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

### Trosolwg

Mae system gwynion y mae'r cyhoedd a'r heddlu yn ymddiried ynddi yn rhan hanfodol o gynnal hyder mewn plismona.

Er bod hyder yn ddidueddrwydd yr IOPC yn parhau i fod yn uchel, mae rhai o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a phobl ifanc yn llai tebygol o fod â hyder yn ddidueddrwydd yr IOPC, neu yn y modd y mae'r heddlu'n delio â chwynion.

Rhaid i ni adeiladu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n rôl, fel bod y cyhoedd yn gwybod pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud. Byddwn yn gwneud hynny trwy weithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall yn well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a sut i ymateb i'w pryderon.

Mae gennym hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth oruchwylio a gwella'r ffordd y mae heddluoedd yn delio â chwynion. Yr heddluoedd eu hunain sy'n delio â mwyafrif y cwynion ac mae ein rhanddeiliaid wedi dweud wrthym mai'r cwynion hyn yn aml sy'n cael yr effaith fwyaf ar eu bywydau ac ar eu hyder mewn plismona.

Mae ein gwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar lawer o bobl ac rydym am i bawb sy'n gysylltiedig ddeall y broses a bod yn hyderus y bydd pobl yn gwrando arnynt a'u trin â pharch a chwrteisi. I adlewyrchu'r nod hwn, rydym wedi ymrwymo i gyfres o **safonau gwasanaeth**. Mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys swyddogion heddlu, achwynwyr a theuluoedd mewn profedigaeth, yn ogystal ag ystod o bartïon eraill sydd â diddordeb. Er y gallant fod â gwahanol safbwyntiau ac yn aml mae ganddynt anghenion cystadleuol, mae ein safonau gwasanaeth yn berthnasol i bawb yn gyfartal. Eleni byddwn yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion a disgwyliadau ein defnyddwyr gwasanaeth cyn belled ag y bo modd.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan

- Fydd gan y cyhoedd hyder yn system gwynion yr heddlu ac mae pobl yn gallu cwyno.
- Fydd gan bobl ifanc a’r rhai o gefndiroedd BAME hyder yn y system ac yn gallu cwyno.
- Fydd demograffeg y rhai sy’n cwyno yn adlewyrchu’r cymunedau a wasanaethir gan yr heddlu.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2020/21

### Gwaith parhaus i gyflawni ein strategaeth

- Parhau i gyflawni ein cyfrifoldeb am oruchwylio gweithrediad effeithiol system gwynion yr heddlu trwy:
  - gasglu, monitro a chyhoeddi data ar gwynion gan yr holl heddluoedd, a'i ddefnyddio i lywio ein goruchwyliaeth o'r system
  - darparu pwynt cyswllt pwrpasol i'r holl heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i drafod ymdrin â chwynion ac adolygu perfformiad
  - cefnogi'r rhai sy'n ymdrin â chwynion yr heddlu a rhoi cyngor ac arweiniad effeithiol iddynt i wella eu gwaith
  - cyhoeddi rhifynnau pellach o Focus, ein canllaw ymarferol i system gwynion yr heddlu ar gyfer ymarferwyr, a'n Bwletinau Goruchwylio, i rannu arfer gorau wrth ymdrin â chwynion o dan y ddeddfwriaeth newydd
- Parhau i gynyddu hyder ein rhanddeiliaid trwy weithredu cynlluniau ymgysylltu cymunedol pwrpasol ar gyfer pob un o'n rhanbarthau a Chymru.
- Cydweithio'n rheolaidd â'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol a Fforwm Rhanddeiliaid Cymru i sicrhau y gall rhanddeiliaid allweddol ddylanwadu ar ein gwaith. Mae amrywiaeth ein grwpiau cyfeirio yn sicrhau ein bod yn agored i ystod o safbwyntiau i lywio a herio ein gwaith.
- Codi ymwybyddiaeth o'r IOPC ymhlith rhanddeiliaid plismona i wella cydweithredu lle gallai fod angen cynnwys yr IOPC mewn achos yn y dyfodol.
- Cwblhau ein hadolygiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar lefelau hyder yn system gwynion yr heddlu ymhlith cymunedau BAME, a dechrau cyflawni ei argymhellion.
- Gweithio mewn partneriaeth â'n Panel Ieuenctid[14] i gynnwys pobl ifanc yn ein gwaith a gwella eu hyder yn system gwynion yr heddlu. Eleni byddwn yn parhau i weithredu argymhellion y Panel, sy'n cynnwys:
  - cyflwyno digwyddiadau ymgysylltu â phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a grwpiau cymunedol ledled Cymru a Lloegr
  - datblygu ymgyrch wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu ymhlith pobl ifanc
  - archwilio ffyrdd o ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc, megis profiad gwaith, interniaethau a mentora
- Parhau i wella'r wybodaeth a ddarparwn i'n defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod hyn yn diwallu eu hanghenion unigol.
- Adeiladu ar ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer® a enillwyd yn ddiweddar ac archwilio ffyrdd i ddangos ymhellach ein hymrwymiad i ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn.[15]

14 Yn 2018 fe wnaethom gomisiynu Leaders Unlocked i greu ein Panel Ieuenctid, sy'n ein helpu i ymgysylltu â phobl ifanc.
15 I gynnal yr achrediad hwn bydd angen i ni barhau i ddangos pwyslais ar y defnyddiwr gwasanaeth ar draws pum agwedd ar ein gwaith: dealltwriaeth o gwsmeriaid, diwylliant sefydliadol, gwybodaeth a hygyrchedd, cyflawni a phrydlondeb ac ansawdd.

- Ymchwilio i gwynion am ein gwasanaeth ac ymateb iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith. Lle na allwn wneud hyn, byddwn yn esbonio pam a pha mor hir y credwn y bydd yn ei gymryd.
- Rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda'r cyhoedd trwy gyhoeddi crynodebau achos ac adroddiadau ymchwilio.
- Cyhoeddi ystadegau cwynion yr heddlu a data perfformiad chwarterol ar gyfer yr holl luoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ystadegau hyn yn dangos y nifer a'r math o gwynion a wnaed ac yn nodi pa mor dda y cawsant eu trin.



## Gwaith newydd ar gyfer 2020/21

- Dylunio system newydd i gefnogi heddluoedd sy'n delio â chwynion yn well fel eu bod yn darparu gwasanaeth cyson ac o ansawdd uchel. Defnyddio'r system hon i adnabod yr heddluoedd hynny sydd angen ein cefnogaeth fwyaf.
- Gweithredu hawl achwynydd newydd i adolygiad o ymchwiliadau troseddol, gan roi'r hawl i achwynwyr ofyn am adolygiad o'n penderfyniad i beidio â chyfeirio ymchwiliad i'r CPS. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng hawliau dioddefwr sy'n honni bod trosedd wedi'i chyflawni gan aelod o'r cyhoedd ac un sy'n honni bod trosedd wedi'i chyflawni gan berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu.
- Datblygu cynigion pellach ar gyfer ffyrdd y gall defnyddwyr gwasanaeth herio ein penderfyniadau, gan gydbwyso'r angen am her a chraffu â'r risgiau o gyflwyno cost ac oedi ychwanegol.
- Datblygu dull newydd o gysylltu â theuluoedd ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion ychwanegol. Byddwn yn gwneud ymrwymiadau clir ynghylch sut y byddwn yn cyflawni ein gwaith, gan gynnwys darparu pwynt cyswllt pwrpasol cyn pen 24 awr ar ôl digwyddiad, a chynnal hyn trwy gydol ein hymchwiliad.
- Cyflwyno strategaeth gyfathrebu newydd i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd allweddol (yn enwedig pobl ifanc a'r rheini o gefndiroedd BAME), gan gynnwys trwy:
  - lansio ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth newydd, yn enwedig mewn perthynas â'n meysydd blaenoriaeth thematig, i rannu gwybodaeth a dysgu gyda'r cyhoedd
  - lansio e-gylchlythyr rheolaidd i hysbysu ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach
  - adolygu a gwella ein gwefan fel y gall defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am ein gwaith a system gwynion yr heddlu

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- wella perfformiad ar y dulliau mesur allweddol canlynol yn ein holrheiniwr canfyddiad y cyhoedd:
  - y gyfran o bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg
  - y gyfran o'r cyhoedd o gefndir BAME sy'n ymwybodol ohonom

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl ein bod yn gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu
- cyfran y cwynion am yr heddlu a wneir gan bobl o gefndir BAME
- cyfran y cwynion am yr heddlu a wneir gan bobl ifanc


How do you think the system works
WHAT HAPPENS TO YOUR VIEWS

# Sbotolau:

## gwella'r broses o drin cwynion yr heddlu

Rhan allweddol o'n rôl yw gwella'r ffordd y mae heddluoedd yn delio â chwynion, nhw sy'n delio â mwyafrif y cwynion. Ceisiodd newidiadau deddfwriaethol i'r system gwynion a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2020 wneud y system gwynion ganolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gan helpu i sicrhau bod materion yn cael eu hymdrin mewn modd amserol a chymesur ac annog ffocws ar ddysgu.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio gyda heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i helpu i ymgorffori'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod system gwynion yr heddlu yn ymatebol i anghenion achwynwyr. Bydd hefyd yn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion ar y lefel fwyaf priodol, ac yn sicrhau hyder yn y system.

Yn benodol, byddwn yn anelu at ganolbwyntio ar:

- sicrhau bod cwynion nad oes angen ymchwiliad arnynt yn cael eu trin mewn ffordd ymatebol a chymesur sy'n diwallu anghenion yr achwynydd
- darparu cyngor ac arweiniad a rhannu arfer da ar drin cwynion a mabwysiadu'r ddeddfwriaeth newydd
- gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i'w cefnogi i gyflawni eu rôl atebolrwydd newydd wrth drin cwynion[16]
- parhau i gasglu a monitro data ar berfformiad y system gwynion a rhannu mewnwelediadau o'r wybodaeth hon gyda heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu
- cefnogi Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ystyried rhai adolygiadau o'u hardal heddlu, newid a ddyluniwyd i gynyddu annibyniaeth yn y system gan y byddai'r materion hyn wedi cael eu hystyried o'r blaen gan yr heddlu dan sylw

16 Mae adran 22(1)-(3) o'r *Ddeddf Plismona a Throsedd 2017* (fel y'i diwygiwyd) yn nodi swyddogaethau goruchwylio newydd ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Bellach mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ddyletswydd benodol i ddwyn prif swyddogion heddluoedd i gyfrif mewn perthynas â thrin cwynion yr heddlu.

# Blaenoriaeth

## Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon

### Trosolwg

Ein huchelgais yw i'r IOPC fod yn lle gwych i weithio ac eleni byddwn yn ceisio adeiladu ar ganlyniadau arolwg staff cryf o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ein harolwg diweddaraf, roedd y canlyniadau y tu hwnt i'r disgwyliadau. O'r 30 categori a fesurwyd, dangosodd 21 welliannau ystadegol arwyddocaol, ac mewn rhai achosion gwelliant o dros 25%. Mae ein perfformiad mewn nifer o gategorïau bellach yn unol â thimau perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil. Cawsom hefyd gyfradd ymateb o 80% i'n harolwg eleni, yn erbyn cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil o 67%. Fodd bynnag, nid ydym yn hunanfodlon â'r canlyniadau hyn. Rydym am wella ymhellach eleni.

Rydym yn sefydliad pobl gyda ffocws clir ar sut mae ein pobl yn cael eu cefnogi a'u cynnwys fel y gallant gyflawni eu potensial llawn gan weithio gyda ni. Mae ein pobl, ein gwerthoedd a'n diwylliant yn ganolog i'n llwyddiant. Datblygwyd ein gwerthoedd gan ein staff ac maent yn dylanwadu ar bopeth a wnawn. Rydym wedi ymrwymo i roi mynediad i'n pobl i'r sgiliau, y wybodaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i berfformio ar eu gorau.

Eleni byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ein dull o ddysgu a datblygu. Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd unigol ac wedi'u teilwra. Byddwn hefyd yn gwella'r cyfleoedd dysgu a datblygu a gynigiwn i'n staff, gan gynnwys hyfforddiant arweinyddiaeth a hyfforddi yn ogystal â datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol. Rydyn ni hefyd yn newid sut rydyn ni'n recriwtio, i wella amrywiaeth ein gweithlu a chynrychioli'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn well.

Rydym yn ymdrechu i fod yn sefydliad effeithlon a byddwn yn parhau i gynnig gwerth am arian i'n defnyddwyr gwasanaeth a'n trethdalwyr. Byddwn yn sicrhau bod ein dyheadau yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael i ni. Rydym eisoes wedi datblygu cynllun effeithlonrwydd a buddsoddi strategol i alluogi gwell cynllunio cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a byddwn yn parhau i asesu cyfleoedd i ddod yn sefydliad mwy effeithlon.

Eleni byddwn hefyd yn uwchraddio ac yn gwella ein gallu technolegol, gan roi mwy o hyblygrwydd a mynediad at well offer i'n gweithlu i gyflawni eu gwaith.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan

- Fydd amrywiaeth ein pobl yn well ar bob lefel a’n gweithlu yn adlewyrchu’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Fydd ein pobl wedi eu hysgogi, eu hymgysylltu ac yn falch o weithio i’r IOPC.
- Fyddwn yn cyflawni effeithlonrwydd ariannol ac yn gwneud arbedion i leihau ein costau, sy'n cael eu meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg.

## Yr hyn fyddwn ni’n ei wneud yn 2020/21

### Gwaith parhaus i gyflawni ein strategaeth

- Dechrau adnewyddu ein rhaglen achredu ymchwilwyr, gan weithio gyda'r Coleg Plismona i archwilio alinio rhai o'n safonau ymchwilio craidd â'r Rhaglen Proffesiynoli Ymchwiliadau (PIP), safon arfer gorau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer ymchwiliadau.
- Parhau i weithredu ein strategaeth Lle Gwych i Weithio, sy'n ceisio hyrwyddo gweithio hyblyg a doethach. Bydd hyn yn cynnwys adnewyddu ein swyddfa i gefnogi gweithio cydweithredol yn well ac ymgorffori technoleg gyfathrebu newydd i hyrwyddo cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.
- Cynnig ystod o gyfleoedd datblygu proffesiynol a thechnegol i'n rheolwyr a'n harweinwyr, a'r rhai sy'n dymuno symud i'r rolau hynny. Bydd hyn yn cynnwys cymwysterau dewisol y Sefydliad Rheoli Siartredig i roi cydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau.
- Cynnal ein harolwg staff blynyddol ac arolygon pwls rheolaidd i ddeall sut y gallwn wella fel cyflogwr.
- Gwella'r gefnogaeth a ddarparwn i'n bobl trwy ddatblygu strategaeth lles ac iechyd meddwl a chynnal ein rhwydweithiau staff cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gweithio i wahanu ein gwasanaethau TGCh gan un prif gyflenwr dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn gwella sefydlogrwydd a hyblygrwydd ein platfform TGCh ac yn caniatáu prynu gofynion TGCh yn y dyfodol yn fwy cost-effeithiol.
- Dechrau datblygu System Rheoli Achos symlach, hyblyg a chost-effeithiol i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd gennym. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn datblygu atebion i wella'r ffordd yr ydym yn darparu datgeliad i gefnogi achosion cyfreithiol.
- Lleihau ein costau a'n heffaith amgylcheddol trwy archwilio dewisiadau amgen i'r defnydd o'n fflyd gyfredol a'n hopsiynau trafnidiaeth a gweithredu mentrau i ddod yn fwy cynaliadwy.
- Adnewyddu ein cynllun effeithlonrwydd a buddsoddi strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod fel ein bod yn parhau i ddarparu gwerth am arian. Byddwn yn gwella ein rhagolygon ariannol ymhellach trwy integreiddio cynllunio ariannol yn well ar draws mwy o feysydd o'n gwaith.
- Adolygu ein contractau a'n prosesau caffael i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y sefydliad ac yn parhau i gynnig gwerth am arian.


ThinkPad

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Gwaith newydd ar gyfer 2020/21

- Gweithredu System Rheoli Dysgu ddigidol newydd i ddarparu mwy o ddysgu unigol, wedi'i deilwra, creadigol, hyblyg a hygyrch.
- Cyflwyno fframwaith recriwtio newydd i gefnogi denu a recriwtio cydweithwyr o gefndiroedd a chymunedau amrywiol fel bod ein pobl yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn well.

### Byddwn yn anelu at:

- cyflawni sgôr ymgysylltu â staff o 63% (fel y'i mesurir gan ein harolwg staff blynyddol)[17]
- sicrhau bod 80% o'n hymchwilwyr yn cael achrediad cyn pen 24 mis
- cynnal trosiant staff o rhwng 8 a 10%
- peidio â mynd dros lefel absenoldeb salwch staff o 2.9%

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o'n pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir BAME
- y gyfran o ymgeiswyr o gefndir BME sy'n cael eu rhoi ar restr fer i gael cyfweliad

17 Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ddull o fesur syniadau, disgwyliadau a diwylliant sefydliadol. Defnyddir pum cwestiwn i gynhyrchu sgôr ymgysylltu i'n pobl. Mae'r rhain yn dal ymgysylltiad trwy ofyn i weithwyr sut maen nhw'n siarad am eu sefydliad, a oes ganddyn nhw gysylltiad emosiynol ag ef, ac a yw eu sefydliad yn eu hysbrydoli. Cysylltir mwy o ymgysylltu gan weithwyr â pherfformiad sefydliadol gwell, llai o salwch a mwy o hapusrwydd.

# Sbotolau:

## gwella ein gwybodaeth

Mae cael mynediad at yr offer a'r systemau cywir i gyflawni ein gwaith yn hanfodol er mwyn i ni fod yn sefydliad uchelgeisiol sy'n gweithredu'n dda. Mae hyn yn cynnwys y ffordd rydyn ni'n datblygu, dal a rhannu ein gwybodaeth.

Trwy ymgorffori ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth ar draws y sefydliad, byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn gwerthfawrogi'r wybodaeth sydd gennym a'i bod yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

Un o'r ffyrdd yr ydym yn hyrwyddo gwybodaeth ein hymchwilwyr yw trwy ail-ddylunio ein rhaglen achredu ymchwilwyr. Eleni byddwn yn dechrau gweithio ar alinio'r rhaglen hon yn agosach â'r safon PIP gydnabyddedig. Bydd yn gwella arbenigedd ein hymchwilwyr, gan sicrhau bod eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad yn cyd-fynd yn agosach â sgiliau'r heddlu ac yn cwrdd â disgwyliadau ein defnyddwyr gwasanaeth yn well.

Byddwn hefyd yn parhau i dyfu ein llyfrgell wybodaeth i helpu i sicrhau bod gan bob cydweithiwr fynediad at wybodaeth gyfoes, berthnasol a chyson i gyflawni eu gwaith.

Eleni byddwn yn cyflwyno System Rheoli Dysgu newydd i roi dull dysgu mwy hygyrch ac wedi’i theilwra i bawb. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein pobl fynediad at y cyfleoedd hyfforddi a datblygu cywir.

Bydd System Rheoli Achosion newydd yn golygu y gall cydweithwyr gofnodi gwybodaeth yn fwy effeithlon. Bydd hyn yn cyflymu'r broses ymchwilio, ac yn darparu gwell casglu data, gan wella ansawdd y wybodaeth y gallwn ei rhannu am ein gwaith i wella plismona. Bydd hefyd yn caniatáu i ni gyhoeddi mwy o wybodaeth am ein gwaith fel y gallwn fod yn destun craffu a'n dal yn atebol am ein perfformiad.

# Ein cyllid a risgiau

## Ein cyllid

Rydym yn cael ein hariannu gan y Swyddfa Gartref trwy gymorth grant. Rydym yn cael cyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i ddod â'n hymchwiliad annibynnol i drasiedi Hillsborough i ben.

Yn 2020/21, bydd yr IOPC yn derbyn cyllid refeniw o £63.15m (£64.15m ar gyfer 2019/20) yn ogystal â £6.5m i ariannu ymchwiliad Hillsborough.

Dirprwyir cyllidebau i Gyfarwyddwyr ac fe'u neilltuir i gyflawni'r prosiectau a’r gwaith arall a nodir yn y cynllun Busnes hwn. Mae Ffigur 1 yn darparu dadansoddiad o'n cyllideb ar gyfer 2020/21.

**Ffigwr 1**

| Cyllid IOPC 2020/21 | £m |
|---|---|
| Grŵp Swyddfa Breifat | 1.19 |
| Gweithrediadau | 28.02 |
| Cyfreithiol | 3.61 |
| Strategaeth ac Effaith | 9.49 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 6.62 |
| TGC | 9.64 |
| Stadau | 5.00 |
| Incwm | (0.42) |
| **Cyfanswm busnes craidd** | **63.15** |
| **Cyfanswm Hillsborough** | **6.50** |
| **CYFANSWM** | **69.65** |

# Ein risgiau

Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun Busnes hwn, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein fframwaith rheoli risg. Goruchwylir y fframwaith hwn gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae'n ein cefnogi i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn newid trwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys ein Polisi Rheoli Risg, a ddiweddarwyd gennym yn ddiweddar i adlewyrchu newidiadau yn strwythur y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith. Nodir isod y risgiau allweddol i'n cyflawniad eleni.

## COVID-19

Erys cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch effaith y pandemig COVID-19, a allai gael effaith andwyol ar gyflawni'r cynllun hwn. Ein pryderon mwyaf uniongyrchol yw ansicrwydd ynghylch faint o amser y bydd cyfyngiadau ar symudiadau a mesurau pellhau cymdeithasol yn aros yn eu lle, yn ogystal â phryderon ynghylch iechyd a lles ein pobl a'u teuluoedd. Rydym yn disgwyl y bydd effaith ar ein gallu a'n heriau logistaidd, a gall y ddau ohonynt effeithio ar y gwaith y gallwn ei gyflawni.

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn a'n blaenoriaethau yn barhaus i ymateb i'r sefyllfa sy'n newid yn barhaus, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflawni'r gwaith pwysicaf a mwyaf effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu unrhyw effaith ar ein cyflawniad o'r metrigau perfformiad a nodir yn y cynllun hwn. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ein rhaglen uwchraddio system TGCh hanfodol ac ar ail-ddylunio ein prosesau gweithredol. Bydd technoleg a'n dull o arloesi a gwella yn ein galluogi i ddatblygu atebion i oresgyn rhwystrau y gallem ddod ar eu traws wrth gyflawni ein gwaith yn ystod yr amseroedd heriol hyn.

## Cyflawni wrth wella

Yn ein barn ni, y darn mwyaf arwyddocaol o waith yr ydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn i ddod yw ein gwaith i ail-ddylunio ein prosesau gweithredol a datblygu system rheoli achosion newydd i gefnogi ein ffyrdd newydd o weithio. Mae budd posibl y gwaith hwn o wella prydlondeb ac ansawdd ein gwaith a gwella hyder yn system gwynion yr heddlu yn fawr.

Fodd bynnag, fel ffordd uchelgeisiol ac arloesol o weithio, mae peth risg iddo. Y prif risg sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yw'r gallu i gyflawni newid proses sylweddol ac effeithiol ochr yn ochr â gweithredu newidiadau deddfwriaethol newydd a pharhau i gyflawni ein gwaith gweithredol. Bydd angen cydbwyso'r gofynion cystadleuol hyn ar ein hadnoddau yn ofalus er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl waith pwysig hwn.

Wrth i'r cynllunio barhau ar gyfer y gwaith hwn, byddwn yn cael mwy o eglurder ynghylch y ffyrdd y bydd ein prosesau'n newid a byddwn yn gallu rhagweld yn well yr effaith y bydd cyflawni'r gwaith hwn yn ei chael ar agweddau eraill ar y cynllun Busnes hwn. Byddwn yn parhau i asesu ein blaenoriaethau a defnyddio ein fframwaith rheoli newid i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol wrth symud ymlaen â nodau'r gwaith hwn.

## Adnoddau

Mae ansicrwydd ynghylch ein cyllid yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn risg i'n cyflawni. Y llynedd fe wnaethom ddatblygu a dechrau gweithredu cynllun effeithlonrwydd a buddsoddi strategol i'n helpu i ddeall ac ymateb yn well i newidiadau posibl i'n cyllid. Byddwn yn parhau i weithredu'r cynllun hwn dros y 12 mis nesaf, gan adolygu cynigion lle bo angen, er mwyn caniatáu inni wneud penderfyniadau gwybodus am flaenoriaethau cystadleuol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd.

## Newid deddfwriaethol

Daeth cam olaf y diwygiadau i system gwynion a disgyblu'r heddlu i rym ym mis Chwefror 2020. Gyda threfn ddeddfwriaethol newydd o'r fath, rydym yn dal i weithio i ddeall cymhlethdod a maint y gwaith newydd y byddwn yn ei wneud, gan gynnwys adolygiadau, ymchwiliadau dan gyfarwyddyd a chyflwyno achosion disgyblu. Mae'n bosibl efallai y bydd angen i ni ail-ystyried cyflwyno rhai agweddau ar y cynllun Busnes hwn er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein swyddogaethau craidd a rhoi effaith lawn i'r drefn ddeddfwriaethol newydd, a ddyluniwyd i wella a symleiddio system gwynion yr heddlu.

## Rheoli gwybodaeth

Byddwn yn parhau i fod yn effro i unrhyw newid i ofynion rheoli gwybodaeth sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a byddwn yn ailasesu'r cynllun hwn yng ngoleuni unrhyw alwadau ychwanegol ar ein hadnoddau.

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

## Rhagor o wybodaeth

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn ar ffurf wahanol, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter: @policeconduct **@policeconduct**

E-bostiwch ni: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni ar: **0300 020 0096**

Cyfnewid testun: **18001 0207 166 3000**

Mehefin 2020

Ysgrifennwch atom i:

Independent Office for Police Conduct
10 South Colonnade, Canary Wharf
London, E14 4PU

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.